# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

20.09.24




## Gair gan y Pennaeth – Headteacher's greeting

Braf iawn oedd gallu manteisio ar yr haul cynnes yr wythnos hon i ddysgu yn yr awyr agored. Mae hi wedi bod yn wythnos o fwynhau yn sicr gyda gweithgareddau amrywiol yn ein dosbarthiadau. Bu cyfle i'r plant hynaf feddwl am eu hiechyd corfforol ar Ddiwrnod Ffitrwydd a hefyd i gael llais yn dyfodol y GIG wrth i ymwelwyr ddod i drafod hynny gyda ni. Aeth nifer o'r plant ieuengaf am dro i'r ardal leol i ddysgu am y coed lleol.

Diolch i bawb a fynychodd cyfarfodydd pwysig **Cwrdd â'r Athro.** Os na lwyddoch i fynychu, gofynnwn yn garedig i chi ddarllen y cyflwyniad sydd wedi'i ddanfon atoch chi yn ofalus. Mae gallu cydweithio er lles ein plant yn bwysig iawn.

Wrth edrych ymlaen at wythnos nesa, dymunwn pob hwyl i ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd yn mynd ar daith preswyl i Langrannog. **Mwynhewch** a chymerwch bob cyfle!

Mae hi hefyd yn wythnos **Beicio i'r Ysgol** wythnos nesa. Mae teithio llesol eto yn fater pwysig i ni fel ysgol ac felly bwriadwn estyn hynny i bythefnos o ddathliad seiclo i'r ysgol, gan y bydd hynny hefyd yn caniatáu i ddisgyblion Blwyddyn 6 gymryd rhan. Rydym yn annog pob plentyn i feicio i'r ysgol mor aml ag y gallan nhw dros y pythefnos nesa, rhwng **23.9.24 a 4.10.24**. Pwy all seiclo o leiaf un diwrnod? Pwy all seiclo bob dydd? Cofiwch am y Bws Beics ar 27.9.24. Ewch amdani!

- - - - -

It was good to be able to take advantage of the warm sun this week to learn outdoors. It's certainly been a week of enjoyment with various activities across our classes. Our older children had the opportunity to think about their physical health on Fitness Day and also to have a say in the future of the NHS as visitors came to gather our views. Many of our youngest children took a walk to the local area for some valuable outdoor learning and to learn about our local trees.

Thank you to everyone who attended the important **Meet the Teacher** meetings**.** If you didn't manage to attend, we ask that you carefully read the presentation that has been sent to you. Being able to work together to benefit our children is always important.

As we think ahead to next week, we wish Year 6 pupils all the very best on their residential trip to **Llanrannog**. **Enjoy** and grasp every opportunity!

It's also **Cycle to School Week** next week. Active travel is again an important issue for us and we therefore intend to extend this to two weeks of cycling celebration, as that will also allow Year 6 pupils to take part. We are encouraging all children to cycle as much as possible to school over the next two weeks between **23.9.24 and 4.10.24**. Who can cycle at least one day? Who can cycle every day? Don't forget about the Bus Bike on 27.9.24. Go for it!

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**25.10.24**
**Gwener / Friday**
Diwrnod HMS
INSET day

**23.9.24 – 27.9.24**
Llangrannog B6
Year 6 Llangrannog

Mae copi newydd (cywir!) o ddyddiadau'r tymor wedi'i atodi.

A new (correct!) version of this term's important dates is attached.

---

Cofiwch hefyd am ein calendr byw sydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalen cartref gwefan yr ysgol.

Our live calendar is available to download on our school website's homepage.




Byddwn yn cysylltu yn fuan i roi diweddariad i chi ar ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol. Yn y cyfamser, dyma uchafbwyntiau'r wythnos i chi…..

We will be making contact soon with an update on our use of social media. In the meantime please continue to find the week's highlights below…

Plant y feithrin yn mwynhau arbrofi a chydweithio yn yr awyr agored.

Nursery children having fun experimenting and cooperating in the open air.



































Mae'r Dosbarth Derbyn wedi bod yn ymarfer eu sgiliau modur man yn yr ardaloedd yr wythnos yma.

Dosbarth Derbyn (Reception) have been practicing their fine motor skills in all corners of the class this week.




PIC•COLLAGE

3C yn gwylio cyfweliad gyda Lili Jones ar ddydd ffitrwydd cenedlaethol. Mae Lili yn siaradwr Cymraeg sy'n chwarae i dîm Wrecsam ac wedi cynrychioli Cymru.

3C watching an interview with Lili Jones on national fitness day. Lili is a Welsh speaker who plays for Wrexham and has represented Wales.



2C wedi joio mas draw ar eu taith gerdded, yn edrych ar y gwahaniaeth rhwng coedwig collddail a choedwig conifferaidd.

2C had a great time on their walk, looking at the differences between deciduous and coniferous trees.



2E yn mwynhau chwarae rôl yn y sinema Cymraeg yn ymarfer archebu docynnau a danteithion.

2E having fun with role play in the Welsh cinema and practicing ordering tickets and treats.












1E yn darganfod am eu hunain!

1E finding out all about themselves!











1C yn mwynhau trefnu rhifau

1C putting their numbers in order!









Wythnos hon buodd Alex yn gwrando ar farn a syniadau **blwyddyn 6** ar sut dylai gwasanaethau gofal iechyd y dyfodol edrych ar eu cyfer nhw. Roedd yn hynod ddiddorol i glywed am y pethau sydd yn bwysig i'n disgyblion.

This week Alex listened to **year 6**'s views and ideas on how future healthcare services should look like for them. It was fascinating to hear about the things that are important to our pupils.




4C ar ddydd Mawrth yn cydweithio gyda bwrdd iechyd Caerdydd a'r Fro yn rhannu adborth a syniadau am sut all y wasanaeth weithio iddyn nhw yn y dyfodol.

4C on Tuesday collaborated with Cardiff and Vale health board sharing feedback and ideas about how the service can work for them in the future.






5C yn mwynhau cerddoriaeth gyda Mrs Cole ac yn gwneud Gwaith gwerth lle yn Mathemateg.

5C having musical fun with Mrs Cole and working on place value in Mathemateg.




Cymro / Cymraes yr Wythnos

Welsh learners of the week




Dysgwyr yr Wythnos

Learners of the week